# SUT ALLWN NI DDEFNYDDIO GWASTRAFF BWYD?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau ymgysylltiol rydych yn eu cynnig. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd effeithiol o ddatblygu sgiliau cyfannol y dysgwyr (creadigrwydd ac arloesi, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Dylech ganolbwyntio ar pam mae dysgu'n bwysig a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybrau y gellid eu dilyn wrth fynd drwy'r gweithgaredd. Nid ydynt wedi'u bwriadu i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull gweithredu yn unol ag anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae'r dysgwyr yn defnyddio ffotograff i archwilio gwastraff bwyd ac yn trafod beth allai ddigwydd i fwyd nad yw'n cael ei fwyta. Maent yn ystyried data ynghylch gwastraff bwyd yng Nghymru ac yn creu hysbyseb un funud o hyd i annog eraill i wastraffu llai o fwyd. Mae'r dysgwyr yn ymchwilio i sut y gellir compostio ac ailgylchu gwastraff bwyd. Maent yn rhoi cynnig ar dyfu ffrwythau a llysiau o wastraff bwyd ac yn myfyrio ar y broses.

### CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Dulliau o dyfu ffrwythau a llysiau o wastraff bwyd – compost, pridd, potiau, gweddillion bwyd, offer garddio syml.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Gallai rhai tasgau fod yn fwy effeithiol os oes gan barau neu grwpiau o ddysgwyr fynediad at ddyfais sy'n darparu mynediad i'r rhyngrwyd.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## BETH YW GWASTRAFF BWYD?

Dangosir delwedd o lysiau sydd wedi darfod mewn bin mawr i'r dysgwyr a gofynnir iddynt ddefnyddio amrywiaeth o eiriau ar gychwyn cwestiynau i drafod y ddelwedd a darganfod mwy amdani. Gofynnwch iddynt ystyried y pryd o fwyd diweddaraf y gwnaethon nhw ei fwyta, y rhannau o'r pryd na wnaethon nhw eu bwyta a beth ddigwyddodd i'r bwyd hwn, yn eu tyb nhw.

Bob mis Mawrth, cynhelir 'Wythnos Gweithredu ar Wastraff Bwyd'. Mae'r wefan hon yn cynnwys data am wastraff bwyd, dolenni i wefannau eraill am y mater hwn a'r posibilrwydd o nodi cod post i ddarganfod y ffordd gywir o gael gwared â gwastraff bwyd na ellir ei fwyta - Atal gwastraff bwyd - Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff.

Mae llawer o wefannau eraill hefyd yn darparu gwybodaeth gefndir am y mater hwn, e.e.

- Lleihau Gwastraff Bwyd: Dewisiadau Bwyd Gwyrdd - Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
- Data ailgylchu ar gyfer Gwastraff bwyd - Fy Ailgylchu Cymru.

Darperir data ar wastraff bwyd yng Nghymru i'r dysgwyr; maent yn gwylio'r fideo Food waste is powerful. Be Mighty, Recycle your food waste (tua 1 munud 30 eiliad o hyd) ac yna maent yn ystyried amrywiaeth o gwestiynau.

Er bod cost ynghlwm wrtho, mae Cynllun Addysg Peirianneg Cymru yn trefnu prosiect ymarferol yn yr ystafell ddosbarth sy'n cael ei lansio trwy gyfrwng gweithdy un awr yn yr ysgol. Mae'r gweithdy hwn wedi'i gynllunio i addysgu dysgwyr ynghylch beth yw maint ac effaith gwastraff bwyd: Gwastraff Cynaliadwy: Compost i Gnydau - EESW.

Yn olaf, eglurwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i greu hysbyseb un funud o hyd i annog eraill i wastraffu llai o fwyd. Byddant yn rhannu eu hysbysebion gyda'r dosbarth, yn rhoi ac yn derbyn adborth ac yn defnyddio triongl myfyrio i feddwl am y broses o greu'r hysbyseb.

TASG 2

# SUT ALLWN NI AILGYLCHU GWEDDILLION GWASTRAFF BWYD?

Eglurwch wrth y dysgwyr y gellir troi gweddillion gwastraff bwyd sydd heb eu coginio, yn gompost gardd ac anogwch nhw i ystyried beth maen nhw'n ei wybod am gompost a biniau compost. Gallech ystyried dechrau compostio yn yr ysgol, os nad ydych eisoes yn gwneud hynny. Er mwyn darganfod mwy, gweler:

- Sut i sefydlu compostio gartref - Cymru yn Ailgylchu
- Composting for schools - RHS Gardening (Saesneg yn unig)
- Composting project launched at Llanfoist Fawr Primary School - South Wales Argus (Saesneg yn unig)

Rhowch wybod i'r dysgwyr y gallwch ailgylchu ffrwythau a llysiau o weddillion gwastraff bwyd. Ar ôl gwylio'r fideo 15 Fruits & Vegetables You Can Grow from Kitchen Scraps (tua 7 munud o hyd), bydd y dosbarth yn rhoi cynnig ar dyfu ffrwythau a llysiau o weddillion gwastraff bwyd.

Rhowch wybod i'r dysgwyr y gallwch ailgylchu ffrwythau a llysiau o weddillion gwastraff bwyd. Ar ôl gwylio'r fideo 15 Fruits & Vegetables You Can Grow from Kitchen Scraps (tua 7 munud o hyd), bydd y dosbarth yn rhoi cynnig ar dyfu ffrwythau a llysiau o weddillion gwastraff bwyd.

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud rhestr o'r pethau y gellir eu tyfu o weddillion gwastraff bwyd ac i wneud rhagor o ymchwil. Er enghraifft, gallent edrych ar wefannau fel:

- Regrow From Scraps: 12 Fruits or Vegetables You Can Regrow – Food Revolution (Saesneg yn unig)
- 20 Vegetables You Can Re-Grow From Scraps – Rural Sprout (Saesneg yn unig)

Anogwch grwpiau o ddysgwyr i rannu syniadau a phenderfynu beth fydd pob grŵp yn ceisio ei dyfu. Dylai'r dysgwyr baratoi'r gweddillion gwastraff bwyd ar gyfer eu tyfu, gan ddechrau'r broses dan do. Unwaith y bydd y planhigion yn ddigon mawr, gellir eu trawsblannu y tu allan, gan ofalu amdanynt yn rheolaidd. Ar ôl cynaeafu'r ffrwythau a'r llysiau, gwahoddwch y dysgwyr i fyfyrio ar ba mor dda y tyfodd y planhigion, gan nodi pam.

Mae gan Matt Pritchard (Saesneg yn unig) a Chris Roberts ymgyrch i leihau gwastraff bwyd: Dirty Vegan Matt Pritchard a Chris 'Flamebaster' Roberts yn lansio'r ymgyrch newydd Bydd Wych. Ailgylcha i leihau'r bil gwastraff bwyd £786 miliwn yng Nghymru – Cymru yn ailgylchu.

## Dolenni defnyddiol

Dyma rai dolenni a allai fod yn werth eu harchwilio ar gyfer pob Tirwedd Ddynodedig:

### Tirwedd Cenedlaethol Ynys Môn

Canolfannau ailgylchu a banciau ailgylchu – Cyngor Sir Ynys Môn

Banciau ailgylchu ar Ynys Môn – Cyngor Sir Ynys Môn

### Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyngor Sir Powys: Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi - Cyngor Sir Powys

Cyngor Sir Caerfyrddin: Canolfannau Ailgylchu - Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir Fynwy: Canolfannau ailgylchu gwastraff cartref – Cyngor Sir Fynwy

## Tirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Cyngor Sir Ddinbych: Ymweld â'n Parciau Gwastraff ac Ailgylchu - Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir y Fflint: Canolfannau Ailgylchu Cartref – Cyngor Sir y Fflint

## Parc Cenedlaethol Eryri

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Gwynedd: Biniau ac ailgylchu – Cyngor Gwynedd

## Tirwedd Cenedlaethol Gŵyr

Canolfannau ailgylchu - Abertawe

## Tirwedd Cenedlaethol Llŷn

Cyngor Gwynedd: Biniau ac ailgylchu – Cyngor Gwynedd

## Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Canolfannau Gwastraff ac Ailgylchu - Cyngor Sir Benfro

## Tirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy

Cyngor Sir Fynwy: Canolfannau ailgylchu gwastraff cartref – Cyngor Sir Fynwy

## Gweithgareddau defnyddiol eraill ar Tirlun

Mae gweithgareddau eraill ar Tirlun sy'n ystyried gwastraff ac ailgylchu, gan gynnwys:

- Beth allwn ni ei wneud am sbwriel?
- Beth i'w wneud â sbwriel ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro?
- Beth i'w wneud â sbwriel yn Nhirwedd Cenedlaethol Ynys Môn?
- Beth i'w wneud â sbwriel yn Nhirwedd Cenedlaethol Llŷn?

Yn ogystal, mae gweithgareddau ar Tirlun sy'n ystyried llygredd, gan gynnwys:

- Beth yw llygredd?
- Pa mor ddiogel yw nofio yn y môr yn Nhirwedd Cenedlaethol Ynys Môn?
- Pa mor ddiogel yw nofio yn y môr ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro?
- Pa mor ddiogel yw nofio gwyllt ym Mannau Brycheiniog?
- Pa mor ddiogel yw nofio gwyllt yn Eryri?
- Pa mor ddiogel yw nofio gwyllt yn Nyffryn Gwy?
- Syrffio ar Benrhyn Gŵyr
- Syrffio ym Mhenrhyn Llŷn
- Beth allwn ni ei weld yn y tywyllwch ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?
- Beth allwn ni ei weld yn y tywyllwch ar Ynys Môn?

Gellir addasu'r rhain i gyd ar gyfer unrhyw leoliad.